Brand

Y gôt un llawes

Cryfder / caredigrwydd / cadernid

Fel y gwyddoch, mae Ynys yr Iâ yn lle oer iawn. Mae rhan helaeth o'r wlad wedi ei gorchuddio ag eira a rhew. Yn y gaeaf, bydd hi'n tywyllu'n gynnar ac fe fydd hi'n oer iawn, iawn. Mae'r stori hon yn sôn am Brand, dyn da oedd yn byw ar Ynys yr Iâ.

Roedd Brand yn forwr da. Byddai'n hwylio ei long o amgylch yr Ynys o leiaf unwaith y flwyddyn. Dywedodd wrth ei deulu ei fod am hwylio'r moroedd i Norwy. Doedd y daith o Ynys yr Iâ i Norwy ddim yn daith hawdd. Byddai stormydd yn codi ar y môr. Ond fe gyrhaeddodd yn saff.

Ar ôl iddo gyrraedd, fe glywodd Brenin Norwy amdano. Clywodd ei fod yn ddyn da a charedig.

"Fe'i rhoddaf ar brawf," meddai'r Brenin, "i mi gael gweld ydi Brand yn ddyn caredig mewn difri."

Anfonodd un o'i weision i chwilio am Brand a gofyn iddo a fuasai'n fodlon rhoi ei fantell i'r Brenin.

"Wrth gwrs," meddai Brand, "rho'r fantell hon i'r Brenin."

Roedd y Brenin wedi rhyfeddu.

"Fy ngwas," meddai'r Brenin, "rwyf am i ti fynd yn ôl at Brand a gofyn iddo am ei fwyell." Gwyddai'r Brenin fod gan Brand feddwl y byd o'i fwyell.

"Dyma fy mwyell," meddai Brand, a'i rhoi yn llaw gwas y Brenin.

Yn wir, roedd y Brenin wedi rhyfeddu fwy fyth y tro hwn. Ydi wir, mae hwn yn ddyn caredig iawn. Ond doedd y Brenin ddim yn fodlon. Yn ôl yr anfonodd y gwas i ofyn am gôt Brand y tro hwn.

"Mae'r Brenin angen dy gôt y tro yma," meddai'r gwas braidd yn swil. Ond cyn rhoi ei gôt i was y Brenin, tynnodd lawes y gôt ac felly dim ond un llawes oedd arni.

Pan welodd y Brenin y gôt efo'r un llawes edrychodd ar ei was. Meddai wrtho, "Mae Brand nid yn unig yn ddyn caredig iawn, ond mae hefyd yn ddyn cyfrwys iawn. Trwy'r gôt yma efo un llawes mae o wedi dysgu gwers i mi. Dweud mae o fy mod i fel dyn efo un fraich, bob amser yn derbyn ond byth yn rhannu."

"Fy ngwas," meddai'r Brenin, "dos i nôl Brand er mwyn i mi gael dangos iddo fod gennyf fraich arall. Gyda'r fraich arall fe roddaf iddo anrhegion am ei fod wedi bod mor garedig."

Aeth Brand i fyw i balas y Brenin ac yn wir fe ddaeth yn enwog trwy wlad Norwy i gyd.

"Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; chwiliwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Oherwydd y mae pawb sy'n gofyn yn derbyn, a'r hwn sy'n chwilio yn cael, ac i'r hwn sy'n curo agorir y drws."

Mathew 7:7-8

O Dduw,
diolch am bobl ym mhob oes
sy'n barod i roi
heb gyfri'r gost.
Amen.

Beth yn union ydi ystyr "rhoi"?